

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adroddiad i:	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	
Dyddiad:	23 Gorffennaf 2019	
Pwnc:	Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2018/19	
Pennaeth Gwasanaeth	Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau / Swyddog A151 01248 752601 MarcJones@ynysmon.gov.uk	
Awduron yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 MarionPryor@ynysmon.gov.uk	Julie Jones Rheolwr Risg ac Yswiriant 01248 752609 JulieJones@ynysmon.gov.uk
<p>Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae pwyllgorau archwilio'n elfen allweddol o lywodraethiant corfforaethol ac yn ffynhonnell bwysig o sicrwydd ynghylch trefniadau sefydliad mewn perthynas â rheoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd ar berfformiad ariannol a pherfformiad arall. O ganlyniad, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn eirioli ei rôl ehangach ym mhob agwedd o sicrwydd. Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r Pwyllgor â gwybodaeth am sut mae'r Cyngor wedi rheoli ei weithgareddau sicrwydd dros y bum mlynedd ddiwethaf a'i heriau ar gyfer y dyfodol.</p>		

1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r trefniadau yswirio a hanes y colledion diweddar ar gyfer y prif feysydd risg lle mae yswiriant.

2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ac yn cynnig unrhyw sylwadau arno.



ADRODDIAD YSWIRIANT BLYNYDDOL GORFFENNAF 2019

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg

Julie Jones, Rheolwr Risg ac Yswiriant



CYNNWYS

CYFLWYNIAD	1
CRYNODEB HAWLIADAU	3
TUEDDIADAU HAWLIADAU	4
HERIAU'R DYFODOL	6
ATODIAD A	8

Llun ar y clawr: Rhosneigr yn ystod corwynt Ophelia, Hydref 2017

CYFLWYNIAD

Bu'r Cyngor ail dendro ei contract yswiriant yn 2017 gan ddefnyddio Fframwaith Prynu Deinamig newydd Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Llywodraeth Cymru er mwyn gwahodd tendrau. Zurich Municipal enillodd y contract, sy'n rhedeg o 1 Hydref 2017 i 30 Medi 2022 ac mae'n cynnwys proses flynyddol ar gyfer adnewyddu'r contract.

Mae gan y Cyngor amrywiaeth o bolisiau yswiriant yn eu lle a'r prif rai yw **atebolrwydd cyhoeddus** ac **atebolrwydd cyflogwr**, **eiddo** ac yswiriant **modur**.

Mae polisiau atebolrwydd cyhoeddus ac **atebolrwydd cyflogwr** yn indemnio'r Cyngor yn erbyn costau ac iawndal mae'n atebol i dalu pan fydd aelod o'r cyhoedd, busnesau neu weithwyr yn cyflwyno hawliadau o ganlyniad i ddifrod, anafiadau neu salwch sy'n codi o ganlyniad i esgeulustod y Cyngor.

Mae'r polisiau **eiddo** yn digolledu'r Cyngor am ddifrod i'w adeiladau a'u cynnwys yn dilyn difrod a achosir gan beryglon penodol.

Mae **yswiriant modur** yn cyfuno elfen o'r ddau o ran ei fod yn indemnio'r Cyngor yn erbyn difrod neu anafiadau a achosir i drydydd parti gan ei gerbydau ac mae'n digolledu'r Cyngor am ddifrod i'w gerbydau.

Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfuniad o **hunain yswiriant** ac **yswiriant allanol** er mwyn diogelu yn erbyn canlyniadau ariannol risg. Mewn rhai achosion mae'r Cyngor wedi trefnu yswiriant allanol ond yn hunain yswirio canran fawr o'r hawliadau sydd wedi eu talu drwy ddewis talu swm cychwynnol mawr (**excess**). I leihau'r risg ariannol mae'r Cyngor wedi negodi arhosfa agregau (cap) ar y polisiau hyn ac unwaith mae hwn yn cael ei gyrraedd mae'r yswiriwr yn talu costau unrhyw hawliadau pellach.

Ers 1 Hydref 2017, mae'r tâl-dros-ben ar gyfer y prif bolisiâu fel â chanlyn:

Atebolwydd Cyhoeddus a Chyflogwr	£50,000
Modur	£1,000
Eiddo - Ysgolion	£25,000
Eiddo - Adeiladau Cyffredinol a Thai	£10,000
Eiddo - Mân ddaliadau a Masnachol	£250

Mae hunain ariannu colledion yn rhan o agwedd gyffredinol y Cyngor tuag at reoli risg. Mae'n darparu mwy o gymhelliant i ddelio â risg yn fwy effeithiol o gofio bod unrhyw ostyngiad mewn hawliadau o fudd i'r Cyngor. Mae hefyd yn lleihau'r premiwm sy'n daladwy ac atebolwydd y Cyngor ar gyfer Treth Premiwm Yswiriant (sydd ar hyn o bryd yn 12%¹). Yn 2018/2019 roedd y premiwm yswiriant a dalwyd dros £610,000, gan gynnwys £62,743 o Dreth Premiwm Yswiriant.

Er mwyn cwrdd elfen hunain yswiriant unrhyw hawliad, mae'r Cyngor wedi sefydlu Cronfa Yswiriant. Mae awch y Cyngor am risg a'r angen i sicrhau sefydlogrwydd y Gronfa Yswiriant dros y tymor hir yn dylanwadu ar y lefel o hunain yswiriant.

Er mwyn bodloni'r lefel hon o hunain yswiriant, fel ar 31 Mawrth 2019, roedd Cronfa Yswiriant y Cyngor yn cynnwys £1.250m mewn Cronfa Arian Wrth Gefn wedi'i chlustnodi a £270k yn y Cyfrif Darpariaeth Yswiriant.

Tra ei bod hi'n bwysig sicrhau bod y Gronfa Yswiriant yn cynnwys adnoddau digonol i gwrdd â'i rwymedigaethau, mae yna hefyd gyfle i gynnal gwell cydbwysedd na sydd angen. Er mwyn sicrhau bod y Gronfa yn ddigonol i gwrdd â chostau ei hawliadau ond nad yw'n cynnwys gormod o arian wrth gefn, bydd y Rheolwr Yswiriant a Risg, mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, yn adolygu'r Gronfa bob blwyddyn.

¹ Cynyddodd treth premiwm yswiriant o 6% i 9.5% ym mis Tachwedd 2015, i 10% yn Hydref 2016 ac ar 1 Mehefin 2017, i 12%.

CRYNODEB HAWLIADAU

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o hawliadau sydd wedi eu gwneud o dan neu yn erbyn trefniadau yswiriant mewnol ag allanol y Cyngor ar gyfer y cyfnod **1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2019**, yn seiliedig ar ddyddiad y digwyddiad ac nid ar ddyddiad gwneud neu gyflwyno'r hawliad, ac ar gyfer hawliadau a gyflwynwyd cyn 1 Ebrill 2019. Cyfanswm cost yr hawliadau yw cyfanswm y gost i'r Cyngor a'i yswiriwr yn cynnwys iawndal a chostau.

Mae crynodeb o'r hawliadau sydd wedi eu cynnwys yn [Atodiad A](#) o'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad o bob polisi, yn ôl pob blwyddyn ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd o'r nifer o hawliadau sydd wedi:

- cael eu talu,
- cael eu setlo heb unrhyw gostau na thaliadau, neu
- lle nad yw'r hawliad wedi ei setlo hyd yma.

Mae'r crynodeb hefyd yn cynnwys y swm a dalwyd o ran yr hawliadau hynny a setlwyd a'r swm sydd wedi'i gadw wrth gefn ar gyfer yr hawliadau hynny nad ydynt wedi eu setlo hyd yma.

Dylid pwysleisio na fydd yr holl hawliadau sydd '*dal yn agored*' ac sydd ag arian wrth gefn yn eu herbyn yn cael eu talu neu eu setlo yn unol â'r swm wrth gefn sydd yn er herbyn. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer hawliadau atebolrwydd; bydd hawliadau ag arian wrth gefn mawr yn eu herbyn yn aml yn cael eu setlo am symiau llawer is neu am ddim costau o gwbl.

Gall nifer yr hawliadau hefyd gynyddu dros amser, oherwydd mewn rhai achosion, mae hawliadau yn cael eu cyflwyno nifer o flynyddoedd ar ôl y digwyddiad. Er enghraifft, mae gan blentyn a anafwyd yn yr ysgol gynradd gyfnod o dair blynedd ar ôl troi yn 18 oed i gyflwyno eu hawliad. O ganlyniad, bydd nifer yr hawliadau a chyfanswm yr arian wrth gefn yn newid dros amser.

TUEDDIADAU HAWLIADAU

Mae nifer yr hawliadau ar gyfer anafiadau personol a gyflwynwyd gan weithwyr yn parhau yn isel ar dri neu bedwar y flwyddyn dros y cyfnod 5 mlynedd. Er nad yw'r Cyngor wedi derbyn unrhyw hawliadau ar gyfer y cyfnod 2018/19, mae pump o'r 16 (31%) o hawliadau a gyflwynwyd yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf yn parhau i fod ar agor. Mae hyn yn dangos natur hirfaith (long tail) nifer o hawliadau atebolrwydd y cyflogwr.

Mae nifer yr hawliadau atebolrwydd cyhoeddus wedi gostwng yn sylweddol dros y bum mlynedd ddiwethaf. Mae hawliadau am anafiadau i ddefnyddwyr ffordd a difrod i gerbydau ar y briffordd yn cyfri am bron i hanner yr hawliadau a dderbyniwyd (46.6%). Fodd bynnag, mae nifer yr hawliadau sy'n gysylltiedig â'r briffordd fwy neu lai wedi haneru dros y pedair blynedd rhwng 2014/15 a 2017/18, gyda 2018/19 yn dangos cynnydd bychan. Ni chafwyd unrhyw newid sylweddol yn nifer yr hawliadau yn erbyn unrhyw wasanaeth arall, er cafwyd cyfres o hawliadau yn erbyn y Gwasanaeth Tai yn 2017/18 yn honni bod tai mewn cyflwr o wael.

O'r hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a dalwyd, y rhai mwyaf arwyddocaol yw'r iawndal a'r costau o bron i £23,000 a dalwyd yn dilyn llithro, baglu neu ddisgyn ar lithrfa a reolir gan y Cyngor. Mae hefyd tri hawliad arall am lithro, baglu neu ddisgyn wedi costio dros £10,000 yr un. O'r hawliadau atebolrwydd cyhoeddus sydd dal heb eu setlo, mae gan y mwyaf sylweddol arian wrth gefn o £81,000 yn ei erbyn ac mae'n ymwneud ag achos o faglu ar y briffordd.

Mae nifer yr hawliadau moduro yn parhau yn weddol gyson ar gyfer y cyfnod, er gwelodd y Cyngor gynnydd yn nifer yr hawliadau yn 2018/19 sydd i weld wedi parhau yn 2019/20. Mae cyfran uchel o'r hawliadau hyn (58%) o ganlyniad i gamgymeriadau gan ein gyrwyr. Yn 2017/18, gwelodd y Cyngor gynnydd gweladwy yng nghost hawliadau moduro. Mae dros £72,000 o'r cynnydd hwn yn ganlyniad i lifogydd Tachwedd 2017 pan fu'r yswirwyr benderfynyn bod pedwar cerbyd trydan wedi eu difrodi i'r fath raddau nad oedd modd eu trwsio.

Y tywydd yw'r prif yrrwr ar gyfer hawliadau difrod i eiddo. Ym mis Hydref 2017, tarodd cyn-gorwynt Ophelia Ynysoedd Prydain gan ddod â gwyntoedd o hyd at 90mya.

Hon oedd ail storm tymor y gaeaf 2017/18, yn dilyn Storm Aileen ym mis Medi. Roedd y gwyntoedd cryfaf ger arfordiroedd Môr Iwerddon, yn enwedig gorllewin Cymru gyda gwyntoedd o rhwng 70 a 80 m.y.a. neu uwch mewn lleoliadau arfordirol agored. Roedd yr Ynys yn ymddangos ddwywaith mewn rhestr o'r chwe gwynt cryfaf yn y DU²:

Lleoliad	Rhanbarth	Cyflymder gwynt (m.y.a.)
Capel Curig	Gwynedd	90
Aberdaron	Gwynedd	90
Llu Awyr Y Fali	Ynys Môn	81
Trwyn y Mwmbwls	Gorllewin Morgannwg	79
Ronaldsway	Ynys Manaw	78
Mona	Ynys Môn	77

Achosodd Storm Ophelia ddifrod i do Canolfan Hamdden Plas Arthur ac amcangyfrifir y bydd y gwaith atgyweirio yn costio tua £34,000.

Hefyd yn 2017/18, cafwyd tân a ddinistriodd adeilad amaethyddol ym Maes yr Hufen a chafwyd digwyddiad asbestos yn Ysgol Uwchradd Caergybi.

² Ffynhonnell: Swyddfa'r Met - Gwasanaeth Swyddfa Dywydd Cenedlaethol y DU ac un o Sefydliadau Partner yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Diwydiannol (BEIS).

HERIAU'R DYFODOL

Wrth i'r wasgfa ar y cyllidebau barhau, bydd effaith anorfod ar nifer yr hawliadau a gyflwynir a gallu'r Cyngor i'w hamddiffyn.

Fe ddylai'r holl awdurdodau priffyrdd bellach fod wedi mabwysiadu cod ymarfer newydd y DU ar gyfer awdurdodau priffyrdd, 'Well-managed Highway Infrastructure'. Mae hon bellach yn agwedd sy'n seiliedig ar risg yn hytrach na'n un sy'n gosod cyfyngiadau penodol er mwyn penderfynu ar ddiffyg a'r camau y dylai'r Cyngor eu cymryd, mae barn y Swyddogion Priffyrdd bellach yn allweddol. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud ac mae hyfforddiant wedi'i ddarparu er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r cod ymarfer newydd ond mae'r effaith fydd hyn yn ei gael o ran hawliadau ac yn enwedig gallu'r Cyngor i amddiffyn hawliadau yn ansicr.

Mae penderfyniadau llys diweddar (Barclays Bank Plc v Hawlwyr Amrywiol, Hawlwyr Amrywiol v Wm Morrison Supermarkets Plc ac ati) yn ymddangos fel petaent wedi ymestyn y telerau lle gall llysoedd ddal cyflogwr yn ddirprwyol atebol am weithredoedd ei weithwyr a chontractwyr. Yn yr achosion hyn ac eraill, mae'r hawliad wedi llwyddo hyd yn oed os yw gweithredoedd y gweithiwr ond wedi eu cysylltu'n rhannol â'u gwaith neu os yw wedi digwydd y tu allan i'w man gwaith neu amser gwaith. Mae felly'n gynyddol anodd i weld achos pan na fydd llys yn dal cyflogwr ddiffynnydd yn atebol am weithredoedd ei weithwyr pan fydd hawliwr dieuog yn cyflwyno hawliad.

Mae'r Cyngor yn berchen ar 3,819 eiddo ac ychydig dros 700 o garejys ledled yr Ynys, gyda gweledigaeth i weld cynnydd mewn stoc i dros 5000 o unedau erbyn

2049. Mae'r Cyngor wedi cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS)³ ers 2012; yr ail Gyngor i gyflawni'r safon hwnnw⁴.

Yn ychwanegol at y WHQS, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth mewn perthynas ag addasrwydd tai o fewn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016⁵. Mae'n nodi'r angen i landlordiaid sicrhau bod yr eiddo yn addas i bobl fyw ynddo yn ystod cyfnod defnyddio'r eiddo ac ar gyfer cyfnod y denantiaeth. Heb os, mae potensial o gynnydd mewn hawliadau yn erbyn y Cyngor, gyda nifer o sefydliadau 'dim ennill, dim ffi' eisoes yn dechrau gweithio yn y maes.

Rydym yn ffodus ar yr Ynys nad yw ein diwylliant hawliadau yn adlewyrchu'r heriau a wynebir gan gynghorau dinesig, mwy o ran eu maint. Fodd bynnag, mae ymddygiad o fewn yr amgylchedd hawliadau yn parhau i ddatblygu yn dilyn newidiadau mewn rheoliadau hawlio a chyfreithwyr yr hawlwr yn gwthio'r ffiniau wrth iddynt geisio cael yr incwm uchaf posib drwy eu costau.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn adolygu pa mor agored ydym i dwyll a, lle bo'n bosibl, yn edrych i ddatrys hawliadau teilwng yn gyflymach gyda llai o gostau. Rhaid i'r Cyngor dderbyn peth risg, ond wrth wneud hynny, mae'n sicrhau bod prosesau yn eu lle er mwyn adolygu a rheoli'r risgiau hynny gyda'r nod o sicrhau cydbwysedd rhwng y risgiau yr ydym yn eu hyswrio yn eu herbyn a chost y premiwm.

³ Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) yw safon ansawdd tai Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd y WHQS gyntaf yn 2002 a'i nod yw sicrhau bod pob annedd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion trigolion presennol a'r dyfodol. Gosododd Llywodraeth Cymru darged i'r holl landlordiaid cymdeithasol wella eu stoc tai er mwyn bodloni'r safonau WHQS cyn gynted â phosibl, ond erbyn 2020 fan bellaf. Cadarnhawyd yr angen hwn gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

⁴ Mae rhai eiddo yn parhau fel rhai a nodir yn 'fethiannau derbyniol'.

⁵ Mae darpariaethau tebyg wedi eu cynnwys yn y Mesur Cartrefi (Addas i Bobl Fyw) 2017-19, sydd yn y broses o fynd trwy'r Llywodraeth ar hyn o bryd. Er y bydd y Mesur yn berthnasol i Gymru a Lloegr, bydd ond yn berthnasol i denantiaethau yn Lloegr.

ATODIAD A

Polisi		2014/2015	2015/2016	2016/2017	2017/2018	2018/2019	Policy		
Atebolrwydd y Cyflogwr	Nifer	Wedi Eu Talu	2	3	0	1	0	Paid	Employers' Liability
		Setlo Heb Göst	1	0	1	3	0	Settled Without Cost	
		Dal yn Agored	1	0	2	2	0	Still Open	
	Swm	Wedi Ei Dalu	£12,990	£49,874	£0	£2,665	£0	Paid	
		Wrth Gefn	£79,887	£0	£84,995	£7,884	£0	Reserved	
	Atebolrwydd Cyhoeddus	Nifer	Wedi Eu Talu	17	15	23	24	11	
Setlo Heb Göst			103	80	58	31	25	Settled Without Cost	
Dal yn Agored			3	5	3	7	39	Still Open	
Swm		Wedi Ei Dalu	£79,253	£35,947	£33,551	£58,388	£5,462	Paid	
		Wrth Gefn	£14,791	£93,850	£23,277	£29,877	£174,199	Reserved	
Modur		Nifer	Wedi Eu Talu	18	11	10	16	9	Paid
	Setlo Heb Göst		6	15	22	6	11	Settled Without Cost	
	Dal yn Agored		1	0	0	1	14	Still Open	
	Swm	Wedi Ei Dalu	£16,593	£46,305	£13,179	£81,787	£10,067	Paid	
		Wrth Gefn	£11,094	£0	£0	£14,221	£10,873	Reserved	
	Eiddo	Nifer	Wedi Eu Talu	11	18	17	16	6	Paid
Setlo Heb Göst			6	8	11	16	1	Settled Without Cost	
Dal yn Agored			0	0	0	2	7	Still Open	
Swm		Wedi Ei Dalu	£17,148	£71,799	£78,632	£38,688	£10,009	Paid	
		Wrth Gefn	£0	£0	£0	£34,182	£17,066	Reserved	
Arall		Nifer	Wedi Eu Talu	3	1	0	2	2	Paid
	Setlo Heb Göst		1	0	1	1	0	Settled Without Cost	
	Dal yn Agored		0	0	0	0	0	Still Open	
	Swm	Wedi Ei Dalu	£41,273	£3,708	£0	£331	£743	Paid	
		Wrth Gefn	£0	£0	£0	£0	£0	Reserved	
	Cyfanswm	Nifer	Wedi Eu Talu	51	48	50	59	28	Paid
Setlo Heb Göst			117	103	93	57	37	Settled Without Cost	
Dal yn Agored			5	5	5	12	60	Still Open	
Swm		Wedi Ei Dalu	£167,256	£207,633	£125,363	£181,859	£26,281	Paid	
		Wrth Gefn	£105,772	£93,850	£108,272	£86,164	£202,138	Reserved	